WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Rhaglen derfynol o archwiliadau gwerth am arian i gychwyn yn 2006/2007

**Chwefror 2006**

# Cynnwys

**Rhaglen derfynol o archwiliadau gwerth am arian i gychwyn yn 2006/2007**

Atodiad: Amlinelliad o archwiliadau gwerth am arian i gychwyn yn 2006/2007 4

# Rhaglen derfynol o archwiliadau gwerth am arian i gychwyn yn 2006/2007

1. Yn ei gyfarfod ar 6 Hydref 2005, cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio fy amcangyfrif ar gyfer blwyddyn ariannol 2006/2007 ac ystyriwyd fy rhaglen arfaethedig o archwiliadau gwerth am arian i gychwyn yn 2006/2007 [AC(2) 08-05(t2)]. Rwyf wedi ystyried safbwyntiau aelodau'r Pwyllgor, a nawr rwyf mewn sefyllfa i hysbysu'r Pwyllgor am fy mhenderfyniadau ar yr archwiliadau yr wyf yn bwriadu eu cychwyn yn y flwyddyn ariannol i ddod.
2. Mae'r pynciau yr wyf wedi penderfynu eu cynnwys yn fy rhaglen derfynol o archwiliadau gwerth am arian i gychwyn yn ystod 2006/2007 fel a ganlyn:
   - a Hysbysu Gofal Iechyd;
   - b heintiau a geir mewn ysbytai;
   - c rheoli'r risg o lifogydd;
   - d buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion;
   - e trafnidiaeth integredig;
   - f y cynllun Cymorth Prynu;
   - g Canolfan Mileniwm Cymru;
   - h datblygu cynaliadwy: gwneud penderfyniadau busnes;
   - i cynnal sgiliau masnachol yn ystod y broses o ymgorffori CCNC o fewn Llywodraeth y Cynulliad.

   Darperir crynodeb byr ar gyfer pob archwiliad yn yr Atodiad.
3. O ganlyniad i'r ffaith i mi ystyried eu safbwyntiau, gwêl yr aelodau i mi benderfynu cynnwys archwiliad o'r cynllun Cymorth Prynu. Cyn cychwyn archwiliad o'r fath, byddaf yn ystyried canlyniadau adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o bolisïau perchentyaeth cost isel, sy'n cynnwys y cynllun Cymorth Prynu. O ganlyniad i'r ffaith i mi gynnwys y cynllun Cymorth Prynu yn rhaglen 2006/2007, rwyf wedi gohirio fy archwiliad o Gymunedau yn Gyntaf, sy'n debygol o gael ei gynnwys yn fy rhaglen arfaethedig o archwiliadau gwerth am arian i gychwyn yn y flwyddyn ganlynol, 2007/2008, y bydd y Pwyllgor yn ei hystyried yn ddiweddarach eleni.
4. Rwyf yn parhau i ystyried sylwadau eraill y Pwyllgor, megis y rhai hynny sy'n ymwneud ag effaith reoliadol a ffurfiau amrywiol ar weithio mewn partneriaeth mewn perthynas â rhaglenni gwario. Bydd y sylwadau hynny yn llywio fy mhroses o gynllunio cynigion ar gyfer archwiliadau yn 2007/2008 a thu hwnt.
5. Fel y gŵyr y Pwyllgor, nid wyf o'r farn bod fy rhaglen yn ddigyfnewid. Yn fy marn i, dylai'r gwasanaeth cyffredinol a ddarperir gennyf i'r Pwyllgor ymateb i amgylchiadau sy'n newid yn aml, wrth gwrs, yn dilyn awgrymiadau aelodau o'r Pwyllgor. Byddaf yn parhau i hysbysu'r Pwyllgor am unrhyw newidiadau sylweddol i'm rhaglen.

**Jeremy Colman**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**8 Chwefror 2006**

# Amlinelliad o archwiliadau gwerth am arian i gychwyn yn 2006/2007

## Iechyd a Gofal Cymdeithasol

### *Hysbysu Gofal Iechyd*

Hysbysu Gofal Iechyd yw strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi moderneiddio gwasanaethau iechyd yng Nghymru drwy ddefnyddio gwybodaeth a thechnolegau cyfathrebu dros y deng mlynedd nesaf. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi darparu £88 miliwn am y tair blynedd nesaf i gefnogi gweithredu a sefydlu tîm prosiect penodedig. Mae hon yn rhaglen uchelgeisiol ac mae risgiau sylweddol yn gysylltiedig â hi, yn arbennig o safbwynt gweithredu systemau newydd. Byddai'r archwiliad yn edrych ar reolaeth gyffredinol y rhaglen, yn arbennig rheoli risgiau allweddol. Byddai'n asesu adnoddau, gallu ac arweinyddiaeth sefydliadol, codi ymwybyddiaeth a hyfforddi staff, y mae pob un o'r rhain yn angenrheidiol i sicrhau gweithredu effeithiol. Byddai hefyd yn archwilio cadernid fframweithiau i sicrhau gwerth am arian swyddogaethau i'w cyflawni drwy gynlluniau PFI/PPP, a sut mae buddiannau'r rhaglen yn cael eu gwireddu.

Yn ogystal, byddai'r astudiaeth yn archwilio ansawdd presennol gwybodaeth sydd wedi'i seilio ar ddata clinigol, sy'n hanfodol i reoli gwasanaethau yn dda. Mae gwaith archwilio lleol o fewn ymddiriedolaethau'r GIG yn nodi bod llawer o hyn o ansawdd gwael a bod ymddiriedolaethau yn gwario rhyw £300,000 ar ddata a meincnodi o ffynonellau masnachol. Byddai'r gwaith hwn felly'n ceisio canfod dulliau o wella data clinigol GIG Cymru er mwyn gallu ystyried hwn fel rhan o'r prosiect Hysbysu Gofal Iechyd.

### *Heintiau a geir mewn Ysbytai*

Mae gwaith ymchwil gan yr Asiantaeth Diogelu Iechyd yn nodi bod cyfraddau llenwi gwelyau sy'n rhy uchel i ymdrin ag amseroedd aros ynghyd â diffyg staff ac arferion hylendid gwael, yn achosi i un o bob deg claf yn Lloegr gael heintiau tra eu bod mewn ysbyty. Mae rhai o'r heintiau yn achosion cynyddol gyffredin o farwolaeth. Er enghraifft, mae marwolaeth a achosir gan staffylococws awrëws sy'n gwrthsefyll methisilin (MRSA) wedi codi i'r pŵer 16 rhwng 1993 a 2002. Mae'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol wedi llunio adroddiadau ar heintiau a gafwyd mewn ysbytai yn Lloegr yn 1999 a 2004, gan nodi graddfa a chost y broblem a'r cynnydd cyfyngedig a wnaed i fynd i'r afael â hi.

Ar y cyd â'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol newydd yng Nghymru, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu gofynion a systemau arolygu ar gyfer ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru ac mae'n rhoi mathau eraill o gymorth ar gyfer rheoli heintiau. Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio'r sefyllfa yng Nghymru ac yn defnyddio adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i lunio cymariaethau gyda Lloegr. Yn benodol, byddai'n anelu at amcangyfrif cost heintiau a geir mewn ysbytai yng Nghymru ac yn asesu a oes digon o wrthfesurau yn cael eu cymryd gan gynnwys ymagwedd gyffredinol ddiogel tuag at drwygyrch ysbytai. Byddai'n defnyddio data a ddarperir gan y Portffolio Ysbytai Aciwt, yn arbennig data'n ymwneud â rheoli wardiau a phatholeg. Byddai hefyd yn gwneud gwaith dilynol ar elfennau o astudiaeth glanhau ysbytai yr Archwilydd Cyffredinol.

## Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

### *Rheoli'r risg o lifogydd*

Oherwydd hinsawdd a daearyddiaeth, mae Cymru yn dueddol iawn o gael llifogydd ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o ddigwyddiadau wedi achosi difrod helaeth. Mae llifogydd mawr yn cael effaith anferth ar ansawdd bywyd ac mae'n debygol mai hwy yw'r trychinebau naturiol mwyaf sy'n wynebu Cymru. Mae rheoli'r risgiau o lifogydd hefyd yn gofyn am lawer iawn o waith cydgysylltiedig y bu i'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol ei ddisgrifio yn ei adroddiad ar amddiffyn rhag llifogydd, fel "her anferthol". Mae'r system ar gyfer rheoli'r risg o lifogydd wedi newid yn ddiweddar gydag un corff Rhanbarthol yn arolygu pob agwedd ar wneud penderfyniadau, o dan arweiniad polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddai Llywodraeth y Cynulliad yn croesawu asesiad cynnar o'r trefniadau newydd, yn benodol, cymharu'r system â'r un yn Lloegr.

Mae'r astudiaeth hon yn gweddu i themâu Creu'r Cysylltiadau sef ail-lunio gwasanaethau a chydweithio. Mae hefyd yn gweddu i agenda Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad - mae nifer gynyddol y llifogydd yn aml wedi'i chysylltu â newid yn yr hinsawdd. Gallai rheoli risg yn aneffeithiol a chydweithio â rhanddeiliaid yn annigonol o fewn cyd-destun trefn weinyddol ac ariannu newydd arwain at gostau cynyddol ac amharu ar wasanaethau eraill wrth ddelio ag argyfyngau.

## Addysg a Hyfforddiant

### Buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion

Mae'r Grant Gwella Adeiladau Ysgolion, a fydd yn cynyddu o £36.5 miliwn yn 2002/2003 i £74.7 miliwn yn 2007/2008, wedi'i gysylltu â tharged GwellCymru.com y dylai pob ysgol yng Nghymru fod mewn cyflwr ffisegol da erbyn 2010. Mae'r arian yn cael ei ddarparu gyda'r bwriad y bydd awdurdodau lleol yn defnyddio'r grant i ariannu adeiladu ysgolion a chynlluniau ar gyfer gwelliannau. Roedd awdurdodau lleol i fod llunio cynlluniau rheoli asedau yn 2004.

Byddai'r astudiaeth hon yn edrych ar sut roedd y Grant yn cael ei wario ac yn cymharu gwariant â meysydd blaenoriaeth angen. Byddai'n defnyddio pwerau estynedig newydd yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn ystyried nid yn unig pa mor dda mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro ac yn darparu arweiniad ond hefyd sut mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r arian. Byddai felly'n ystyried cynlluniau rheoli asedau ehangach Cynghorau ar gyfer ystyried potensial defnydd y gymuned o adeiladau ysgolion, a byddai hefyd yn ystyried yr angen i leihau adnoddau dros ben ysgolion. Ni fyddai'r astudiaeth o reidrwydd yn ystyried y Grant Gwella Adeiladau Ysgolion yn unig; gallai hefyd ystyried y defnydd o amrywiaeth o ffynonellau ariannu i fynd i'r afael â phroblem adeiladau ysgolion a gallai gael ei hymestyn i gynnwys materion mynediad y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd mewn ysgolion.

## Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

### *Trafnidiaeth Integredig*

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu gwario rhyw £830 miliwn yn 2005/2006 ar drafnidiaeth. Er bod yr elfen fwyaf o'r gwariant hwn ar gefnffyrdd a thraffyrdd (rhyw £650 miliwn), mae hefyd yn cynnwys arian ar gyfer mentrau i leihau'r defnydd o geir a darparu atebion trafnidiaeth integredig, cynaliadwy. Mae trafnidiaeth integredig yn rhan bwysig o agenda datblygu cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad ac mae'n effeithio ar werth cyffredinol gwariant ar drafnidiaeth. Mae mentrau trafnidiaeth integredig yn cynnwys arian cyfalaf ar gyfer gwasanaethau teithwyr ar reilffyrdd Glynebwy a Bro Morgannwg a theithiau bysiau am ddim i'r rhai dros 60 oed. Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r arian ond awdurdodau lleol sy'n bennaf cyfrifol am gyflwyno'r cynlluniau, tra Trenau Arriva Cymru sy'n darparu gwasanaethau rheilffyrdd.

Byddai'r astudiaeth yn archwilio p'un a yw'r mentrau amrywiol yn darparu trafnidiaeth wir integredig, lefel y gwasanaeth i deithwyr a'r effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol cychwynnol. Byddai hefyd yn archwilio pa mor dda mae'r mentrau yn ategu ei gilydd, pa mor dda y cânt eu cydlynu a pha mor dda mae'r trefniadau rheoli ac ariannu yn gweithio'n ymarferol. Byddai'n cynnwys ystyried y defnydd a wneir o'r grantiau trafnidiaeth a ddarperir i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd â sut y cant eu gweinyddu.

## Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

### *Y cynllun Cymorth Prynu*

Cyflwynwyd Cymorth Prynu yng Nghymru yng nghanol y 1990au i annog perchentyaeth cost isel. Math o fenthyciad ecwiti ydyw lle mae landlord cymdeithasol cofrestredig yn talu rhan o'r gost prynu wreiddiol, gan ddefnyddio Grant Tai Cymdeithasol ac mae'n cael ei drin fel benthyciad di-log i'r prynwr. Wrth werthu, neu ynghynt os bydd y prynwr yn dymuno, mae'r landlord cymdeithasol cofrestredig yn derbyn y ganran berthnasol o werth y farchnad bresennol. Caiff y derbyniadau hyn eu hailfuddsoddi i ddarparu Grant Tai Cymdeithasol pellach. Deg ar hugain y cant o'r gost prynu gymeradwy yw'r benthyciad ecwiti safonol ond gellir cynyddu hwn i 50 y cant mewn ardaloedd gwledig neu mewn cynlluniau ailddatblygu tai cymdeithasol.

Mae'r defnydd o Gymorth Prynu yn fater i'r awdurdodau lleol benderfynu arno o gyfanswm y Grant Tai Cymdeithasol a ddyrennir iddynt yn flynyddol. Yn 2003/2004, defnyddiwyd £5.68 miliwn i gynorthwyo prynu 198 o dai mewn 15 o awdurdodau lleol. Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio sut y cyflwynwyd y cynllun, lefel y galw sylfaenol ac i ba raddau yr oedd yn cyflawni ei amcanion. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu ei adolygiad ei hun o berchentyaeth cost isel gan gynnwys y cynllun Cymorth Prynu a byddai'n rhaid ystyried canlyniadau'r gwaith hwnnw cyn dechrau ar yr astudiaeth hon.

## Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg

### *Canolfan Mileniwm Cymru*

Agorodd Canolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd 2004 ar gost o £106 miliwn, gan gynnwys £80 miliwn o arian cyhoeddus (yn bennaf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Comisiwn y Mileniwm a Chyngor Celfyddydau Cymru – llawer ohono felly o'r Loteri). Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu £2 filiwn y flwyddyn o gymorth refeniw ar gyfer y Ganolfan. Mae gan y Ganolfan dargedau uchelgeisiol i'w cyflawni o ran y gynulleidfa, sy'n cyflwyno heriau sylweddol i'r rheolwyr. Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio pa mor dda y rheolwyd y prosiect i sefydlu'r Ganolfan a pha mor dda y gweithredodd y Ganolfan yn ei blwyddyn gyntaf fwy neu lai, yn arbennig o ran costau gweithredu a nifer yr ymwelwyr.

## Gweinyddu'r Cynulliad

### *Datblygu cynaliadwy: gwneud penderfyniadau busnes*

Mae dyletswydd statudol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i hybu datblygu cynaliadwy: datblygiad sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn golygu ystyried materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ym mhob peth y mae'r Cynulliad yn ei wneud a dylanwadu ar sefydliadau eraill i wneud yr un peth. Mae *Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy* newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004-2007) wedi nodi y gall Llywodraeth y Cynulliad wneud gwahaniaeth drwy "Wneud i'n harian siarad": sicrhau bod gwariant y Cynulliad a gwariant cyhoeddus arall yn canolbwyntio ar gyflawni datblygu cynaliadwy.

Byddai'r astudiaeth hon yn archwilio i ba raddau a pha mor drylwyr y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried datblygu cynaliadwy wrth wneud penderfyniadau busnes. Un ffocws penodol felly fyddai adolygu sut yr ystyrir datblygu cynaliadwy mewn achosion busnes. Yn ogystal â nodi diffygion wrth ystyried materion cynaliadwyedd a'r rhwystrau i gynnydd, byddai'r astudiaeth yn ceisio canfod dulliau posibl o oresgyn rhwystrau o'r fath drwy, er enghraifft, amlygu ymagweddau arloesol da. Byddai'r archwiliad yn ategu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ddatblygu cynaliadwy mewn llywodraeth leol sydd ar fin cael ei gyhoeddi. Gallai hefyd arwain at gyfres o archwiliadau ar ba mor dda y mae datblygu cynaliadwy yn cael ei ystyried mewn gwahanol agweddau ar fusnes cyhoeddus.

***Cynnal sgiliau masnachol yn ystod y broses o ymgorffori CCNC o fewn Llywodraeth y Cynulliad***

Mae'r sector cyhoeddus yn rhyngweithio â'r sector preifat mewn amrywiaeth o ffyrdd, o gontractau caffael safonol i bartneriaethau aml-asiantaeth yn seiliedig ar grantiau. O ganlyniad, mae angen i'r sector cyhoeddus ddatblygu a chynnal sgiliau masnachol i sicrhau gwerth am arian ei ryngweithiadau â chyflenwyr y sector preifat, contractwyr a phartneriaid. Yn arbennig, mae cyrff cyhoeddus megis Awdurdod Datblygu Cymru, ELWa a Bwrdd Croeso Cymru wedi rhoi cyllid grant sylweddol, benthyciadau a chyllid ecwiti i'r sector preifat ar ffurfiau amrywiol. Ym mis Ebrill 2006, caiff y CCNC hyn eu huno o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda'r risg y gallai sgiliau masnachol allweddol gael eu colli o ganlyniad i hyn. Yn ogystal, byddai colli sgiliau masnachol yn peryglu gwireddu'r buddiannau a ragwelir o gyfuno sgiliau masnachol y sector cyhoeddus o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Byddai'r astudiaeth hon yn asesu i ba raddau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd camau priodol i gynnal y sylfaen sgiliau masnachol drwy'r broses uno. Bydd yn ystyried gwaith perthnasol arall, megis archwiliadau sgiliau mewnol.

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd CF10 3PA
Ffôn: 029 2026 0260
Ffacs: 029 2026 0026
Ffôn testun: 029 2026 2646
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk